# Treftadleoedd

12/09/2025
See all updates
Rydym am roi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth ar draws lleoedd cyfan yn hytrach na phrosiectau unigol.

Rydym am roi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth ar draws lleoedd cyfan yn hytrach na phrosiectau unigol.

Mae Treftadleoedd yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn hyd at 20 o wahanol leoedd ar draws y DU.

Gyda'n strategaeth Treftadaeth 2033 fel ysgogiad, ein nod yw gwneud treftadaeth yn rhan annatod o gynlluniau sy'n gwneud ardaloedd lleol yn lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddon ni ein chwe Lle Treftadaeth newydd:

- Barking a Dagenham, Llundain
- Glannau Hanesyddol Belfast, Gogledd Iwerddon
- Dudley, Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Ynysoedd Orch, yr Alban
- Tameside, Manceinion Fwyaf
- Ynys Môn, Gogledd Cymru

Mae'r rhain yn ymuno â'r naw ardal, tref a dinas a gyhoeddwyd yn 2023:

- Ardal Cyngor Dinas Armagh, Banbridge a Craigavon
- Castell-nedd Port Talbot
- Swydd Durham (gan ganolbwyntio ar Shildon a Newton Aycliffe)
- Glasgow (gan ganolbwyntio ar Stryd Sauchiehall, yng nghanol y ddinas)
- Caerl?r
- Medway
- Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln
- Stoke-on-Trent
- Torbay

## Pwy all ymgeisio

Mae ein buddsoddiad yn helpu sefydliadau partner ym mhob un o'n Treftadleoedd i gydweithio â'r gymuned leol.

Gyda'i gilydd, maent yn creu ac yn cyflwyno cynlluniau i roi hwb i gapasiti a chydnerthedd treftadaeth leol.

Fel gyda Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth o sefydliadau nid-er-elw; er enghraifft, awdurdodau lleol, amgueddfeydd a sefydliadau cymunedol. Gallwn hefyd ystyried ceisiadau gan berchnogion preifat asedau treftadaeth ar gyfer grantiau hyd at £250,000. Cyfeiriwch at ein harweiniad safonol am fwy o wybodaeth.

Yn eich cais, bydd angen i chi ddangos bod eich prosiect yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer eich Lle Treftadaeth a rhoi llythyr ategol gan eich sefydliad partner lleol arweiniol.

Os ydych yn ansicr a ddylai eich prosiect fod yn rhan o Treftadleoedd, gallwch gysylltu â'ch tîm lleol .

## Ystyriaethau ar gyfer cais Treftadleoedd

Ein huchelgais erbyn 2033 yw y byddwn wedi cefnogi prosiectau mewn Treftadleoedd sy'n:

- cynyddu balchder mewn lle ac yn cysylltu cymunedau ac ymwelwyr â threftadaeth trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu
- adeiladu gallu sefydliadau treftadaeth lleol i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gymunedau
- creu cynlluniau sy'n ymateb i anghenion lleol ac yn ymwneud â gwahanol fathau o dreftadaeth, o amgueddfeydd ac orielau i dreftadaeth ddiwylliannol, o'n gorffennol diwydiannol i'r amgylchedd naturiol
- mabwysiadu dull gyda phobl yn y canol sy'n cydnabod treftadaeth pawb

Byddwn yn ystyried y nodau hyn ochr yn ochr â'n gofynion safonol ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys yr ymateb i bob un o'r pedair egwyddor fuddsoddi, wrth asesu eich cais.

## Sut i wneud cais

Gwneir ceisiadau ar gyfer prosiectau Treftadleoedd drwy ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Darllenwch drwy’r arweiniad cyfatebol, yn ychwaengol at y dudalen hon. Er mwyn ein helpu i nodi bod eich prosiect yn rhan o'r fenter strategol hon, rhaid i chi:

- roi'r hashnod '#HP' ar ddechrau teitl eich prosiect
- darparu llythyr ategol gan eich partner(iaid) arweiniol lleol

Gall Treftadleoedd dderbyn ceisiadau am ariannu o £10,000 hyd at £10 miliwn drwy gydol y fenter strategol i weithio tuag at eu hamcanion.

Mae'n debygol y bydd prosiectau cychwynnol yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cynyddu capasiti, yn ennyn diddordeb cymunedau ac yn diffinio blaenoriaethau hirdymor ar gyfer treftadaeth. a bydd ceisiadau mwy yn dilyn wedi hynny. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ddull pob Lle Treftadaeth fod yn wahanol yn dibynnu ar anghenion lleol.

**Ar gyfer grantiau hyd at £250,000, gallwch gyflwyno ymholiad prosiect dewisol i dderbyn adborth ar eich syniad prosiect.**

**Ar gyfer grantiau dros £250,000, rhaid i chi gyflwyno mynegiad o ddiddordeb yn gyntaf.**

Noder: Y £200 miliwn ar gyfer Treftadleoedd yw'r cyfanswm cyllideb ar gyfer y fenter strategol, nid £10 miliwn fesul lle nac ardal ddaearyddol.

## Derbyn eich grant

Os dyfernir ariannu i chi, dilynwch yr arweiniad isod sy'n nodi'r hyn a ddisgwyliwn gennych cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

Derbyn eich grant: £10,000 i £250,000
Derbyn eich grant: £250,000 i £10m

## Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Yn ogystal â'n prosesau o dan y rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, byddwn yn asesu sut mae eich prosiect yn ymdrin ag ystyriaethau'r fenter strategol.

Ar gyfer grantiau o dan £250,000 mae penderfyniadau'n cael eu gwneud bob mis gan staff yn eich gwlad neu ardal. Gyda grantiau o fwy na £250,000, bydd argymhellion yn cael eu gwneud gan bwyllgorau gwlad/ardal, a bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud bob tri mis gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

## Brand a chydnabyddiaeth

Dylai prosiectau a ariennir drwy'r fenter hon ddefnyddio ein harweiniad cydnabyddiaeth ar gyfer Treftadleoedd.

## Mwy o wybodaeth

- Mynnwch gip ar ein hwb Lleoedd sy'n Ffynnu am astudiaethau achos, storïau a blogiau sy'n seiliedig ar leoedd.
- Ymchwiliwch i'n Treftadleoedd: adroddiad gwerthuso blwyddyn 1
- Data ar gyfer Treftadleoedd – dadansoddiad newydd gan ddefnyddio'r Mynegai Treftadaeth

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...




## Data ar gyfer Treftadleoedd – dadansoddiad newydd gan ddefnyddio'r Mynegai Treftadaeth



wyddyn 1

## Gofynion cydnabyddiaeth grant Treftadleoedd